

WILLIAM REES (Gwilym Hiraethog)

gan D. BEN REES

O holl bregethwyr dawnus Cymru y mwyaf amlochrog ohonynt heb amheuaeth oedd y gŵr a gofir wrth yr enw barddol Gwilym Hiraethog. *Polymath* yw'r gair sy'n cyfleu ei ddoniau, a'r gair agosaf ato yn Gymraeg yw'r gair amlochrog. Fel pregethwr yr oedd yn denu cynulleidfda, fel bardd yn amlwg ym myd eisteddfodau, fel seryddwr yn arloeswr ymysg Cymry Lerpwl, ac yn fwy fyth o arloeswr ar y ddarlith. Ef oedd tad y ddarlith Gymraeg. Yr oedd hefyd yn heddychwyr o ran argyhoeddiad, yn nofelydd a baratôdd y ffordd i Daniel Owen, ac yn wleidydd naturiol a gwybodus.

Disgrifiodd Kilsby Jones ef yn ei ffordd wreiddiol ei hun: 'Dernyn o dir Mesopotamia ydoedd Hiraethog' ac y mae'n defnyddio y gair Mesopotamia am fod y tir hwnnw yn dwyn ffrwyth ar ei dri chanfed. Mae'n wyrthiol iddo gyflawni cymaint pan gofiwn mor brin oedd y cyfleusterau ar ddechrau ei daith. Yn wir y mae William Rees yn un o'r ychydig hyany a ddihangodd o grafangau y frech wen ac yntau ond plentyn. Fe'i ganwyd yn y Chwibren Isaf, Llansannan (ac mae'r ffermdy yn dal yn nwylo Cymry sy'n gwybod yr hanes) ar 8 Tachwedd 1802 i deulu anghyffredin o ran gallu a diwylliant. Yr oedd y teulu o ochr ei nain yn rhan o fywyd Llansannan ers canrifoedd, yn wir o dras uchelwyr yr Oesoedd Canol. Gŵr o Landeilo, Dyffryn Tywi, oedd ei daid, Henry Rees; dyn byr o gorff, chwim ei droed a gwyllt ei dymer, un o'r Cristnogion cyhyrog a oedd yn ddiigon parod i ddefnyddio'r dwrn pan oedd raid. Mewn oedfa awyr agored ar Glwt y Gogwr fe adroddir am Sais o'r enw King a oedd yn gweithio yn y fro, anghenfil o ddyn swrth a ddaeth y diwrnod hwnnw i darfu ar yr addolwyr a galw'n groch ar y pregethwr i bregethu yn Saesneg. Cyfrôdd Henry Rees a llamodd i ganol y dyrfa a tharo Mistar King nes ei fod e'n swpyn digyffro ar wastad ei gefn yn y gwrych drain. Ddaeth King ddim yn ôl i aflonyddu ar Gymry o Fethodistiaid Calfinaidd yn Llansannan ar ôl i Henry Rees ei dero.

Onid gŵr gwahanol oedd y mab, Dafydd Rees, gŵr llwfr a disylw mewn torf. Roedd mor wahanol i'w rieni ac mor wahanol i'w wraig Ann a'i feibion.

Yr oedd fy nhad a'm mam yn bur wahanol i'w gilydd yn rhymer eu meddwl, yn gyffelyb i Manoa a'i wraig. Un isel, llwfr a digalon iawn oedd ef yn nydd profedigaeth. Yr oedd hithau o'r tu arall, fel cedrwydden gref, yn wrol a shalomog...



William Rees, 'Gwilym Hiraethog', 1802-1883

Dyna dystiolaeth y mab, William Rees, am ei rieni. A dyna'r union fformiwla yn ôl rhai addysgwyr a seicolegwyr sydd ei angen i gynhyrchu arweinyddion, yn arbennig arweinwyr ym myd gwleidyddiaeth. I gynhyrchu arweinydd gwleidyddol fel George Thomas, er enghraifft, mae angen mam gref a phenderfynol, 'cedrwydden gref' a thad llwfr, di-asgwrn cefn, sydd yn y cysgodion. Os mai merch yw'r gwleidydd yna y fformiwla ydyw tad o gedrwydden a mam ddi-sôn amdani. Dyna'r fformiwla a roddodd i ni Margaret Thatcher.

Magwyd Gwilym Hiraethog mewn cryn dipyn o dlodi ac mewn cyfnod anodd yn hanes ffermwyr a gwerin Cymru. Cymerer er enghraifft y flwyddyn 1816. Yr oedd William Rees yn bedair ar ddeg oed y flwyddyn honno. Cafwyd haf gwlyb yng Nghymru, dim ond ychydig ddyddiau sych o ddechrau Mai hyd ddechrau Tachwedd. Disgrifiodd Gwallter Mechain yr haf hwnnw yn gofiadwy wrth sôn am 'y gwan nis gall ymgynhal' ac am 'blygu'r yd fel blagur iâ'. Gwelodd William Rees dlodi ymhobman a digalondd ac iselder ysbryd ymysg y bobl, a'r gweddwywr yn erfyn ar Dduw i arbed y wlad. Fel y bu'r rhieni yn

gweddio drosto ef yn ei afiechyd pan ddaeth y frech wen, bu yntau yn gweddio gydag eraill am waredigaeth o hualau tlodi.

Prin fu'r cyfleusterau addysgol yn ei hanes. Ei athro yn Llansannan oedd John Jones; mab i'r enynydd Edward Jones, Maes-y-plwm, ac awdur yr emyn 'Cyfamod heddi, cyfamod cadarn Duw'. Prin oedd y tymor: dim ond yn y gaeaf. Ychydig o lyfrau oedd yn ei gartref, y pennaf ohonynt oedd *Geiriadur Ysgrifurrol* Thomas Charles o'r Bala a fu'n fwynglawdd i gynifer o genhadon y pulpud. Teimlai William Rees yn gynnar yn ei fywyd mai'r bobl hapusaf o dan haul y nen oedd y rheini a fedrai fforddio arian i brynu llyfrau Cymraeg a Saesneg a fforddio amser i'w darllen. Ac oherwydd yr awch am ddarllen llyfrau ac am mai dim ond y Beibl, a llyfrau crefyddol eraill, oedd ar yr aelwyd nid syn i William Rees a chynifer o rai eraill weld y Weinidogaeth fel llwybr anorfod ei yrfa. Heddiw mewn oes lle mae'r hinsawdd crefyddol mor wahanol, go brin y dewisai y llanc o Llansannan y pulpud, oherwydd cofiwn mai hanes a seryddiaeth oedd prif ddiddordebau deallusol y gŵr hwn. Yn ystod ei gyfnod yn Lerpwl daeth i'w adnabod fel

seryddwr, a bu'n cymysgu ag eraill o gyffelyb-fryd, fel Eliazar Roberts ac Isaac Roberts, Aughton, a ddaeth yn enw reit bwysig ym myd seryddiaeth oes Victoria.

Rhaid crybwyll diddordeb arall o'i eiddo hefyd, sef llenyddiaeth. Cymerwyd cryn ddiddordeb ynddo fel bardd gan ddau fardd gwlad, sef Joseph Davies, Llys Aled, a Robert ap Dafydd o'r Gilfach Lwyd, a ddaeth yn athro barddol iddo. Yr oedd gan y ddau ohonynt un peth nad oedd ar gael yn y Cae Du (lle symudodd y teulu o'r Chwibren Isaf), sef casgliad gwych o lyfrau Cymraeg. Hen lanc oedd Robert ap Dafydd, gŵr mawr cyhyrog a drwg ei dymer. Yr oedd yn unig blentyn ac wedi arfer cael ei ffordd ei hun. Yr oedd Gilfach Lwyd, ei gartref, yn ymyl cartref William Rees, gwaith deng munud o gerdded ac roedd William Rees yn galw'n gyson i ddarllen ei lyfrau. Ac roedd Robert ap Dafydd am wneud bardd ohono. Yr oedd yn athro diwyd a hefyd yn aelod o Gymdeithas Cymreigyddion tref Dinbych, ac y mae hynny ynddo'i hun yn bwyt diddorol. Yr oedd y Cymreigyddion yn wahanol i'r Cymmrodorion. Dadlau ar bynciau gwleidyddol oedd un o'u pleserau pennaf, a daeth Gwilym Hiraethog i'r traddodiad hwnnw maes o law.

O dan berswad Robert ap Dafydd cystaddeuodd yn un o'r Eisteddfodau Taleithiol a gynhaliwyd yn Aberhonddu ym 1826. Daeth i amlygrwydd dros nos am iddo ennill o dan feirniadaeth William Owen Pughe, Walter Davies (Gwallter Mechain) a John Blackwell (Alun). Pobl y Cymreigyddion a'r Gwyneddigion oedd y rhain, cynheilidai bywyd cisteddfodol hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Newydd ymddangos ar y ffurfafen lenyddol yr oedd John Blackwell. Daeth i sylw eisteddfodwyr drwy ennill ar yr awd yn Eisteddfod yr Wyddgrug ym 1823 ar y testun 'Maes Garmon'. Myfyriwr yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, ydoedd pan feirniadau yn Eisteddfod Aberhonddu.

Nid oedd Hiraethog yn bresennol yn yr eisteddfod. A phan agorwyd yr amlen a chyhoeddi enw William Rees, Llansannan, yr oedd tawelwch am funudau. Yna cododd William Owen Pughe ar ei draed. Newydd symud yr oedd i Egryn, ger Nantglyn, ar ôl dod i gyfoeth y Parchedig Rice Pughe, Nantglyn. Dyma William Owen Pughe yn eu hystbysu ei fod yn adnabod Llansannan ond nad oedd ef erioed wedi clywed am